Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas**

**Neuadd Sgowtiaid 1af Mynydd Mawr**
**Black Lion Rd**
**Gorslas**
**Llanelli**
**SA14 6RS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/10/2023

# Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Angharad Campbell |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ôl cofrestru yw'r arolygiad hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn mwynhau cymryd rhan wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr yn eu gweithgareddau. Maent wedi datblygu cydberthnasau cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac maent yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn briodol i hyrwyddo llesiant, diogelwch a ffyrdd iach o fyw. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig cyfleoedd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant ac yn gwrando ar eu safbwyntiau. Maent yn cynllunio'n briodol i sicrhau cynnydd y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig sylfaen adnoddau sy'n bodloni gofynion unigol a chamau datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi gwybodaeth i AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) mewn perthynas â digwyddiadau o bwys. Mae ganddynt bartneriaethau da â'u rhieni, y gymuned ac ysgolion cyfagos.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn; er enghraifft, yn ystod yr ymweliad, gwelsom y plant yn mwynhau amser cylch wrth iddynt eistedd gyda'i gilydd a chymryd rhan yn y broses gofrestru. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad o ddydd i ddydd ac yn symud o amgylch yn annibynnol ac yn hyderus. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae'n hapus dan do ac yn mwynhau dringo'r ffrâm bren a dod i lawr y llithren.  Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd; roeddent yn gyfforddus yn ein cwmni ac yn hapus ac yn hyderus i'n cynnwys mewn rhai gweithgareddau, er enghraifft, wrth dynnu lluniau ac wrth ddilyn patrymau ar y padiau hud.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol wrth iddynt chwarae a chydweithredu'n gyson. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan wrth chwarae gyda'i gilydd. Maent yn dechrau dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu, gyda rhai angen cymorth gan y staff. Er enghraifft, pan oedd dau blentyn eisiau chwarae gyda thryc ar yr un pryd, gwnaethant chwarae gyda'i gilydd a rhannu'r tryc, gyda chymorth gan y staff. Mae'r plant yn ddigon hyderus i fynd at y staff os bydd angen unrhyw  beth arnynt a gwrandewir arnynt. Maent yn gwenu â balchder wrth gael eu canmol am eu gweithgaredd gwneud marciau gan aelod o'r staff.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n addas i'w hoedran/datblygiad, er enghraifft, stand baentio, ardal grefftau, ffrâm ddringo a theganau adeiladu. Maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau penodol drostynt eu hunain.  Er enghraifft, mynd yn ôl ac ymlaen i'r toiled, golchi dwylo, casglu eu platiau a'u cwpanau eu hunain ar gyfer amser byrbryd a helpu eu hunain i fyrbryd ac arllwys eu llaeth eu hunain i fygiau. Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu ac maent yn ymgysylltu am gyfnod rhesymol o amser.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn dilyn y rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae pob aelod o'r staff yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith, gyda gweithdrefnau golchi dwylo a glanhau byrddau clir cyn ac ar ôl bwyta. Caiff cofnodlyfrau damweiniau eu llenwi, ac maent wedi'u cydlofnodi gan y rhieni / gofalwyr. Mae'r staff yn deall ac yn rheoli'r risgiau o ddydd i ddydd ac yn adolygu'r gweithdrefnau pan fo angen. Maent yn deall gofynion a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad, gyda bron pawb yn hyderus ynglŷn â phwy i gysylltu y tu allan i'r lleoliad.

Mae'r staff yn gyfarwydd ag arferion dyddiol y lleoliad, gan ryngweithio â'i gilydd a'r plant yn ystod gweithgareddau. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u hwyliau a'u hanghenion. Maent yn gosod esiampl dda drwy fod yn fodelau rôl da gan annog y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau neu i drafod a sgwrsio gyda phlant eraill. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gadarnhaol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i hyrwyddo hawliau'r plant, a gwelsom fod lleisiau'r plant yn cael eu parchu a'u clywed. Er enghraifft, yn ystod amser cofrestru ac amser canu, pan nad oedd pob plentyn am gymryd rhan.

Mae llawer o'r staff yn gweithio i ddarparu amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu ac maent yn ymwybodol o ddatblygiad y plant. Cynllunnir gweithgareddau yn unol â sgiliau'r plant er mwyn sicrhau cynnydd yn eu datblygiad unigol. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion ychwanegol y plant ac yn deall sut i ddiwallu'r anghenion hynny, er enghraifft, lleferydd ac iaith.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r lleoliad mewn adeilad hunangynhwysol yng nghanol y pentref. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd glân, cynnes a diogel ar y cyfan. Caiff y lleoliad ei gadw dan glo yn ystod y sesiwn, sy'n golygu y gall y plant symud o gwmpas yn annibynnol yn yr ardal dan do mewn modd diogel. Mae'r ardal chwarae awyr agored o flaen yr adeilad, ac nid yw'r tir yn wastad. O ganlyniad, ni all y plant chwarae yn yr ardal honno heb oruchwyliaeth agos. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae llyfr ymwelwyr, rotas, cofrestr y plant a chofnodion cofrestru staff ar waith, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn ddiogel, ac yn cynnig amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal dan do yn hybu annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau a'r ddarpariaeth ar gael iddynt ac yn cael eu cadw o fewn cyrraedd iddynt. Mae'r lleoliad yn cynnwys ardaloedd wedi'u diffinio'n glir, gyda chegin bwrpasol i baratoi byrbrydau a phrydau, ac ardal fawr cynllun agored i chwarae a chynnull yn gymdeithasol, er enghraifft yn ystod amser byrbrydau ac amser cinio. Fodd bynnag, nid oes ardal ddiogel i storio gwaith papur cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau'r plant a'r staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu digon o adnoddau i ysgogi chwilfrydedd y plant. Mae rhai ardaloedd chwarae wedi'u trefnu fel cornel lyfrau, jig-sos pen-bwrdd, ardal chwarae rôl ac ardal grefftau. Mae gan y lleoliad rai adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y byddent yn hoffi creu ardal awyr agored bwrpasol er mwyn i'r plant allu chwarae'n rhydd.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ac maent yn ei rhannu â'r staff gofal, y rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cael ei ddiweddaru ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r plant. Mae'r staff yn dilyn polisïau'r lleoliad, sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Maent yn cydymffurfio â bron pob rheoliad perthnasol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys. Felly, rydym wedi cyhoeddi Maes i'w Wella. Rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithredu i ymdrin â hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ac i gyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.
Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r lleoliad yn barhaus ac yn bwrpasol. Er enghraifft, gwelwyd tystiolaeth fod safbwyntiau ac adborth gan y rhieni a'r plant yn cael eu casglu er mwyn llywio gwaith cynllunio a datblygiadau pellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi datblygu'r amgylchedd awyr agored fel targed.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus a'u bod yn mwynhau eu rolau. Maent yn cael sesiynau goruchwylio anffurfiol, ond nid yw'r sesiynau hyn yn gyson. Cânt eu cynnal ar ffurf ad hoc gan fwyaf, ac ni chânt eu cofnodi. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefn recriwtio gadarn ar waith ac mae ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys y dogfennau cywir cyn iddynt ddechrau yn eu swydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu cysylltiadau ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Maent wedi meithrin partneriaethau da â'r ysgolion lleol ac mae'r arweinwyr yn awyddus i ddatblygu'r partneriaethau hyn ymhellach. Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau da â'r gymuned leol ac maent yn trefnu digwyddiadau codi arian rheolaidd, gan gynnwys partïon Calan Gaeaf a Nadolig yn neuadd y pentref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio gan ei fod wedi methu â hysbysu AGC am ddigwyddiad o bwys, fel y nodir o dan y rheoliad. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn ein hysbysu yn y dyfodol, drwy ei borth ar-lein. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff gwybodaeth a chofnodion cyfrinachol eu storio'n ddiogel. |
| Safon 13 (Gwarchodwr Plant) - Person Addas | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl sesiynau goruchwylio staff eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/12/2023